

## Swyddog Polisi Gweithio i Colegau Cymru

### Contract

---

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth cyfnod penodol, amser llawn (ystyrir rhannu swydd/rhan amser), yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o dri mis.

### Graddfa Gyflog

---

Telir cyflog rhwng £32,859 - £36,073 y flwyddyn i'r ymgeisydd llwyddiannus, pro rata, yn ddibynnol ar brofiad.

### Gwyliau

---

Y gwyliau blynyddol ar gyfer y rôl hon yw 28 diwrnod, pro rata. Yn ogystal â'r hawl bersonol hon, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i adael ar 8 gwyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau ychwanegol.

### Oriau Gwaith

---

Yr oriau llawn amser dan gontract yw 37 awr yr wythnos ac eithrio egwyliau prydau bwyd bob dydd. Bydd yr oriau gwaith yn gymaint i ddiwallu anghenion swydd y Swyddog Polisi.

Weithiau, gellir disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r sefydliad yn gweithredu polisi TOIL (time off in lieu).

### Pensiwn

---

Bydd Colegau Cymru yn gwneud cyfraniad misol i gynllun pensiwn yr ymgeisydd llwyddiannus. Os nad yw'r unigolyn yn cyfrannu tuag at gynllun pensiwn ar hyn o bryd, bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn gweithle.

### Cyfnod Rhybudd

---

Mae angen mis o rybudd.

### Cyfnod Prawf

---

Mae cyfnod prawf o dri mis yn berthnasol i'r rôl hon.

## Lleoliad

---

Bydd y rôl yn gyfuniad o weithio gartref a gwaith swyddfa, wedi'i leoli yn Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB. Mae parcio am ddim yn ein hadeilad. Gall y swydd gynnwys rhywfaint o deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, sy'n gofyn am aros dros nos.

## Eich Gwybodaeth

---

Os dewiswch wneud cais am rôl gyda ColegauCymru, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth amdanoch chi. Efallai y byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth amdanoch chi gan drydydd parti, fel eich canolwyr a, lle bo hynny'n berthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu eich addasrwydd ar gyfer y rôl hon ac, os ydych chi'n llwyddiannus, i reoli ein contract cyflogaeth gyda chi. Ymdrinnir â'ch gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae mwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol i'w gweld yn ein [Polisi Preifatrwydd](#).